# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Fideo gynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 11 Mai 2020

Amser: 10.00 - 11.07

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/6107

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Mick Antoniw AS (Cadeirydd)<br>Suzy Davies AS<br>Carwyn Jones AS<br>Dai Lloyd AS |
| Tystion: | |
| Staff y Pwyllgor: | P Gareth Williams (Clerc)<br>Sarah Sargent (Ail Glerc)<br>Rachael Davies (Dirprwy Glerc)<br>Nia Moss (Ymchwilydd)<br>Lucy Valsamidis (Ymchwilydd)<br>Gareth Howells (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Katie Wyatt (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Craig Griffiths (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

Cadarnhaodd y Cadeirydd, yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, ei fod wedi penderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor er mwyn amddiffyn iechyd y cyhoedd.

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau na dirprwyon.

## 2 Offerynnau sy'n codi materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

### 2.1 SL(5)540 - Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd, ac i drafod ymateb Llywodraeth Cymru pan ddaw i law.

## 3 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 na 21.3 ond sydd â goblygiadau o ganlyniad i ymadawiad y DU â'r UE

### 3.1 SL(5)542 - Rheoliadau Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Rhanddirymiad Tyfu Amrywiaeth o Gnydau) (Cymru) 2020

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn, a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd i dynnu sylw at faterion sy’n codi o ganlyniad i ymadawiad y DU â'r UE.

## 4 Papur(au) i'w nodi

### 4.1 Llythyr gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig: Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol ar Reoliadau Deddf Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Parhad Deddfwriaethol) 2020 (Diwygiadau Canlyniadol) 2020

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, gan nodi y byddai'n trafod y Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol yn y cyfarfod nesaf.

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes a ganlyn:

Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig.

## 6 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Amaethyddiaeth - adroddiad drafft

Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad drafft a chytunodd arno. Nododd yr Aelodau y byddai'r adroddiad yn cael ei osod erbyn y dyddiad cau gofynnol, sef 14 Mai 2020.

## 7 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Pysgodfeydd - adroddiad drafft

Trafododd y Pwyllgor ei adroddiad drafft a chytunodd i drafod drafft pellach yn y cyfarfod nesaf.

## 8 Gwneud i Gyfiawnder Weithio yng Nghymru - trafod cynllunio'r flaenraglen waith

Cafodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am yr ymchwiliad cyfredol a chytunodd i'w drafod ymhellach ar ôl i'r ymgynghoriad gau.